

# Ysgolion pob oed a gynhelir

## Cwestiynau hunanfyfyrio i helpu ysgolion pob oed i ystyried i ba raddau maent yn elwa ar gynnig darpariaeth pob oed

Ystyriaethau

- Pa mor dda ydych chi'n cynllunio ac yn datblygu'r cwricwlwm i fod yn barhad naturiol o brofiadau i ddisgyblion ar draws yr ysgol?
- Pa mor dda ydych chi'n datblygu addysgu i symbylu disgyblion i feddwl a darparu profiadau gwerthfawr wrth iddynt symud drwy'r ysgol?
- A yw disgyblion sy'n pontio i Flwyddyn 7 o ysgolion partner yn cael darpariaeth gyfwerth â'r rhai sy'n symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 yn yr ysgol?
- A yw arweinwyr yn hyrwyddo eu gweledigaeth o un ysgol pob oed yn ddigon clir? A yw pawb yn ei deall ac a ydynt yn hyrwyddo'r weledigaeth hon trwy eu holl waith?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn gweithredu fel un ysgol?
- Pa mor dda y mae dysgu proffesiynol yn mynd i'r afael ag anghenion yr holl staff a materion ysgol gyfan?
- A yw staff yn cael cyfleoedd i weithio ar draws cyfnodau? I ba raddau?

Rhywbeth i feddwl amdano . . .

- A yw gweithgareddau hunanwerthuso yn ystyried yr effaith ar ddysgu disgyblion bob tro, er enghraifft pa mor dda y mae disgyblion yn datblygu eu medrau ar draws yr ysgol?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion pob oed eraill i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau a rhannu arfer dda?

Deunyddiau darllen pellach:

[https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/ysgolion-pob-oed-yng-nghymru-adroddiad-ar-heriau-llwyddiannau-sefydlu-ysgolion](https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/ysgolion-pob-oed-yng-nghymru-adroddiad-ar-heriau-llwyddiannau-sefydlu-ysgolion)